# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 02-07 (p5)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 28ain Chwefror 2007 |
| **Lleoliad** | Ystafell Bwyllgora 1&2, y Senedd, Bae Caerdydd |
| **Teitl** | Rhaglen ddeddfwriaethol a rhaglen waith y Comisiwn 2007 |

### Pwrpas

Nodi’r meysydd blaenoriaeth tebygol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn deillio o Raglen Ddeddfwriaethol a Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2007.

### Cefndir

Amcanion strategol y Comisiwn yw ffyniant, cydlyniad, diogelwch a llais cryf yn y byd. Yn 2007 bydd yr Undeb Ewropeaidd yn dathlu 50fed mlwyddiant Cytuniadau Rhufain. Bydd hefyd yn flwyddyn dyngedfennol i’r Undeb wrth iddi ymgyrraedd at setliad cyfansoddiadol newydd. Mae’r Rhaglen Waith yn dal i gael ei chwtogi a bydd mwy o ffocws ar gynlluniau strategol.

Mae’r papur hwn yn edrych ar y Rhaglen Waith o safbwynt agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae’n awgrymu’r elfennau sy’n fwyaf tebygol o fod o ddiddordeb. Ar y cyfan, mae’n anwybyddu cynigion mewn meysydd nad ydynt yn rhan o bwerau datganoledig y Cynulliad, er nad yw hyn yn amlwg yn golygu nad yw cynigion o’r fath yn bwysig. Rhaid cofnodi cafeat i bwysleisio y gallai’r blaenoriaethau newydd a bod y dadansoddiad hwn wedi’i seilio ar wybodaeth anghyflawn; gallai rhai cynigion ymddangos yn fwy pwysig, ac eraill yn llai pwysig, pan fydd gwybodaeth fwy cynhwysfawr ar gael.

### Materion i’w Hystyried

### 1. Ynni

Mae ynni wedi dod yn bwysicach ar agenda’r UE ymysg pryderon am ddiogelwch tymor hir y cyflenwadau a’r effaith negyddol ar yr amgylchedd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y darlun ehangach ac mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn technolegau amgen.

- Adolygiad Strategol o Bolisi Ynni Ewrop: bydd yn sefydlu elfennau allweddol o bolisi ynni

Ewrop gan gwmpasu cynaliadwyedd, cystadleurwydd a diogelwch cyflenwadau. Bydd yn hwyluso cysondeb ac un llais ar y llwyfan rhyngwladol.

- Mesurau i sicrhau bod y farchnad fewnol i drydan a nwy yn cael ei chwblhau
- Cynllun Technoleg Ynni Strategol: i helpu i ddatblygu technolegau ynni addawol a dod â hwy i'r farchnad.

Cynnig am Gyfarwyddeb i Reoleiddio Hidlo Carbon a Storio Daearegol.

- Cynnig deddfwriaethol

Mae hidlo a storio carbon (HSC) yn dechnoleg newydd a allai gyfrannu'n sylweddol tuag at leihau gollyngiadau CO2, yn yr UE ac yn fyd-eang. Bydd angen addasu'r gyfraith amgylcheddol sy'n bodoli'n barod ar gyfer y dechnoleg hon, i gael gwared â rhwystrau drwy fframwaith cyfreithiol i HSC yn yr UE, i sefydlu sicrwydd cyfreithiol i fuddsoddwyr ar draws Ewrop, ac i reoli peryglon amgylcheddol newydd.

Papur Gwyn: "Towards a European Climate Change Adaptation Programme"

- An-neddfwriaethol

Bydd hwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn ar Addasu ac yn rhestru camau penodol y bydd y Comisiwn yn ymgymryd â hwy o ran addasiadau.

Cynnig am Reoliad mewn perthynas â cherbydau modur sy'n defnyddio hydrogen hylifol neu hydrogen nwyol cywasgedig

Deddfwriaethol

Mae'r Rheoliad hwn yn pennu'r gofynion o ran cymeradwyaeth math i systemau hydrogen a chydrannau hydrogen i gerbydau modur categorïau M ac N. Mae hefyd yn cynnwys gofynion i osod cydrannau neu systemau penodedig yn y cerbydau hynny. Y prif amcan yw sicrhau bod y farchnad fewnol i gerbydau modur sy'n rhedeg ar hydrogen yn gweithredu'n briodol ac, ar yr un bryd, sicrhau lefel uchel o ddiogelwch cyhoeddus a lefel uchel o amddiffyniad amgylcheddol.

## 2. Cymdeithas wybodaeth

- Cynigion deddfwriaethol newydd yn diwygio'r fframwaith rheoleiddio o ran cyfathrebu electronig: mae'n delio â newidiadau disgwyliedig yn y farchnad neu o ran technoleg mewn rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu.
- Papur Gwyrdd ar Wasanaeth Cyffredin ym maes Cyfathrebu Electronig: dadl gyhoeddus am y cysyniad o wasanaeth cyffredin (gallai arwain at gynigion deddfwriaethol yn 2008).

## 3. Ymchwil, Datblygu, Arloesi

- Papur am yr Ardal Ymchwil Ewropeaidd: bydd yn edrych ar lwyddiannau, methiannau, a syniadau newydd, a bydd yn cynnig camau gweithredu newydd.
- Papur am yr adolygiad Canol Tymor o’r Strategaeth Gwyddorau Bywyd a Biotechnoleg: yn gefn i hwn ceir astudiaeth o sialensiau, canlyniadau a chyfleoedd biotechnoleg, a gynhyrchir gan y Cyd Gyngor Ymchwil, ym mis Ebrill ("astudiaeth Bio4EU").

## 4. Addysg

- Erasmus Mundus: sefydlu olynydd i raglen gyfredol Erasmus Mundus i annog sefydliadau AU i sefydlu rhaglenni meistr ar y cyd; mae hefyd yn darparu ysgoloriaethau symudedd i fyfyrwyr/ academyddion o wledydd y trydydd i astudio neu weithio yn yr UE a vice-versa.
- System Gredydau Ewropeaidd i Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol: cynnig am system Ewropeaidd a gynlluniwyd i sicrhau bod credydau a enillir mewn un Aelod Wladwriaeth yn cael eu cydnabod yn llawn mewn Aelod Wladwriaeth arall.

## 5. Diwylliant

- Papur am ddiwylliant: Papur am gydweithredu ym maes polisi diwylliannol yn y dyfodol gan ganolbwyntio ar economi diwylliant, deialog rhyngddiwylliannol, digideiddio treftadaeth ddiwylliannol a sut y gall y celfyddydau a diwylliant helpu i gydgysylltu dinasyddion a’r UE.

## 6. Polisi Cymdeithasol

- 4ydd Adroddiad am Gydlyniant Cymdeithasol Economaidd: cynnydd tuag at gydlyniant economaidd a chymdeithasol, gan asesu cyfraniadau polisïau’r UE a pholisïau cenedlaethol.
- Papur am Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol o Ddiddordeb Cyffredinol: y camau nesaf tuag at ddatblygu ffordd fwy systematig o gymhwyso cyfraith ac egwyddorion y Gymuned o ran gwasanaethau cymdeithasol.
- Adolygiad canol tymor o Agenda Gymdeithasol Ewrop: asesu’r cynnydd o ran agendâu cymdeithasol, swyddi a chyfle cyfartal yr Undeb. Ar sail yr adolygiad bydd y Comisiwn yn cynnig agenda newydd i’r UE o ran mynediad a chydlyniad.
- Realiti cymdeithasol Ewrop: law yn llaw â’r adolygiad o’r agenda gymdeithasol ceir adroddiad ehangach ei gwmpas am newidiadau cymdeithasol yng ngoleuni globaleiddio, adroddiad y galwyd amdano gan arweinwyr yr UE ym mis Mehefin 2006.
- Adroddiad pellach yn dilyn y Papur Gwyn am Bolisi Cyfathrebu Ewrop: camau ymarferol sydd i gael eu cymryd gan sefydliadau’r UE, Aelod Wladwriaethau a chymdeithas sifil i gydgysylltu â dinasyddion a chyfnerthu seiliau democrataidd yr Undeb.

## 7. Yr Amgylchedd

- Adolygiad o’r ddeddfwriaeth bresennol ar ollyngiadau diwydiannol: adolygu’r drefn bresennol i reoli gollyngiadau (e.e. drwy’r Gyfarwyddeb Integredig Atal a Rheoli Llygredd; y Gyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Mawr; y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff; y Gyfarwyddeb Gollyngiadau Toddyddion).
- Cynllun deddfwriaethol i leihau gollyngiadau CO2 o gerbydau ysgafn: anelu at gyrraedd 140

g $CO_2$/km yn 2008/9 a 120 g $CO_2$/km erbyn 2012.

- Papur am bolisi morol: bydd yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghori yn sgil y Papur Gwyrdd (2006), ac yn llunio casgliadau a chamau gweithredu dilynol.
- Papur am roi strategaethau cenedlaethol ar waith o ran caffael cyhoeddus Gwyrdd wedi'i seilio ar dargedau'r UE: yn cynnig meincnodi a monitro rheolaidd.
- Papur Gwyrdd ar Newid yn yr Hinsawdd Ôl-2012: nodi meysydd gweithredu ar lefel y DU i ddelio ag effeithiau andwyol newid yn yr hinsawdd, gan adeiladu ar bapur cynharach y Comisiwn, "Winning the Battle against Global Climate Change".
- Cynllun Gweithredu ar Dreuliant a Chynhyrchu Cynaliadwy: drwy ddatblygu cymdeithasol/ economaidd sy'n parchu capasiti cario ecosystemau a datgysylltu twf economaidd oddi wrth ddiraddio amgylcheddol.
- Adolygu'r ffordd y mae'r cynllun diwygiedig dyfarnu eco-labeli yn cael ei reoleiddio: gwella'r proffil a'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun yn y farchnad, gan ganolbwyntio'n benodol ar anghenion cwmnïau bach a chanolig eu maint a chysylltiadau â Chaffael Cyhoeddus Gwyrdd.

## 8. Iechyd

- Cloriannu Realiti Cymdeithasol: cloriannu dynameg newid cymdeithasol a chanfyddiad pobl o les (economaidd ac o ran ansawdd bywyd); cyfraniad at y ddadl am "Ewrop Gymdeithasol".
- Fframwaith Cymunedol i Wasanaethau Iechyd Saff ac Effeithlon: ymateb deddfwriaethol i ddyfarniadau gan y Llys Barn Ewropeaidd yn ddiweddar am symudedd cleifion; anelu at fframwaith i gwmpasu triniaeth ar draws ffiniau.
- Papur Gwyn am Faeth: strategaeth faeth ar lefel yr UE; hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, delio â gordewdra ac ati.
- Papur am Roi a Thrawsblannu Organau: bydd yn ystyried pa fesurau sy'n ofynnol ar lefel yr UE i sicrhau safonau ansawdd a diogelwch organau.
- Papur am y camau a ddeilliodd o'r Papur Gwyrdd am "Adapting Labour Law for Ensuring Flexibility and Security for All": bydd yn crynhoi canlyniadau ymgynghoriad am ddyfodol cyfraith lafur ac yn cyflwyno cyfeiriadau posibl i'r dyfodol.
- Adolygu'r Rheoliadau Esemptiadau Bloc Cyffredinol ar y Celfyddydau 87 ac 88, Cytuniad CE: bydd yn cynnwys esemptiadau bloc presennol ac yn ychwanegu meysydd newydd fel arloesi, yr amgylchedd, cyfalaf risg a chymorth rhanbarthol.

## 9. Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

Yn gefndir i waith y Comisiwn yn 2007 mae "Archwiliad Iechyd y PAC". Bydd y cynllun hwn yn ystyried symleiddio, gweithredu'r diwygiadau i'r PAC sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn briodol ac, yn hanfodol, bydd yn edrych ar y PAC ôl-2013 fel paratoad at adolygiadau cyllideb yr UE.

- Cynnig am Reoliadau ar drefniadaeth gwin yn y farchnad gyffredin.
- Papur am Strategaeth Iechyd Anifeiliaid 2007-2013: bydd yn cyflwyno Polisi'r Gymuned ar Iechyd Anifeiliaid; bydd yn pennu amcanion clir sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cwsmeriaid, yr effaith ar y gyllideb, cydlyniaeth polisi'r Gymuned ar iechyd anifeiliaid â pholisïau eraill yr UE a chytundebau rhyngwladol (SPS), a lleihau'r baich rheoleiddio.

- Rheoleiddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid: adolygu’r rheolau iechyd ynglyn â sgil-gynhyrchion anifeiliaid, cael gwared â darpariaethau anghymesur, cynyddu’r manteision drwy symleiddio ac osgoi dyblygu gweithdrefnau gweinyddol i awdurdodau cenedlaethol a gweithredwyr.

**Y Gwir Anrh Rhodri Morgan, AC**
**Y Prif Weinidog**